


**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Cyflawni'n gyflym ac mewn modd proffesiynol

# Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad
2014-15

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Cyflawni'n gyflym ac mewn modd proffesiynol

# Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2014-15

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

National Assembly for Wales

# Comisiwn y Cynulliad

Etholwyd Comisiwn y Cynulliad gan Aelodau'r Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn ar 25 Mai 2011. Ynghyd â'r **Llywydd**, sy'n cadeirio'r Comisiwn, y Comisiynwyr eraill yw Peter Black AC, Angela Burns AC, Sandy Mewies AC a Rhodri Glyn Thomas AC.



**Rosemary Butler AC**
Y Llywydd a Chadeirydd y Comisiwn sydd â'r prif gyfrifoldeb dros gyfathrebu a datblygiad proffesiynol yr Aelodau a'u staff.



**Angela Burns AC**
Y gyllideb, llywodraethu, gan gynnwys bod yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio. Cysylltiadau â'r Bwrdd Taliadau. Gwella gwasanaethau i'r Aelodau. Y Comisiwn fel cyflogwr staff y Cynulliad.



**Peter Black AC**
TGCh, darlledu ac e-ddemocratiaeth. Ystâd y Cynulliad a Chynaliadwyedd.



**Sandy Mewies AC**
Gwasanaethau addysg, cyswllt cyntaf, siop y Cynulliad, arlwyo a diogelwch. Cyfleusterau'r Cynulliad. Swyddogaethau cydraddoldeb statudol y Comisiwn.



**Rhodri Glyn Thomas AC**
Swyddogaethau a pholisi'r Comisiwn mewn perthynas â'r Gymraeg. Gwasanaethau Cyfreithiol a Rhyddid Gwybodaeth

# Y Pedwerydd Cynulliad - dogfennau cysylltiedig ar ein gwefan

– Strategaeth y Comisiwn ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad
  **www.cynulliadcymru.org/fourth_commission_strategy.pdf**

– Y Prif Faterion ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad
  **www.cynulliadcymru.org/bus-assembly-publications-key-issues.htm**

– Cyllidebau ac Adroddiadau a Chyfrifon Blynyddol Comisiwn y Cynulliad
  **www.cynulliadcymru.org/about_us-commission_publications.htm**

– Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad
  **www.cynulliadcymru.org/remuneration_board.htm**

# Cynnwys


**Comisiwn y Cynulliad** .... **2**

**01. Rhagair** .... **1**

**02. Comisiwn y Cynulliad 2011-2016** .... **3**

**03. Cost y CynulliadCenedlaethol** .... **5**

**04. Cymorth Seneddol o'r Radd Flaenaf** .... **10**

Rhagoriaeth ac integreiddio gwasanaethau i gefnogi busnes y Cynulliad .... 10

Y Cynulliad fel deddfwrfa .... 12

Gwasanaethau dwyieithog gwell .... 16

Darparu gwasanaethau TGCh yn y dyfodol .... 16

**05. Ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru** .... **20**

**06. Defnyddio Adnoddau'n Ddoeth** .... **24**

Stiwardiaeth yr ystâd .... 24

Llwyddiant drwy ein pobl .... 25

Gwerth am Arian .... 25

**07. Cyllideb i ariannu Penderfyniad annibynnol y Bwrdd Taliadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad** .... **28**

**08. Crynodeb** .... **29**

**09. Cwmpas y gyllideb** .... **31**

**Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol** .... **33**

**Atodiad 2: Mesur Perfformiad Corfforaethol 2013-14** .... **34**

**Atodiad 3: Y Rhaglen Gwerth am Arian** .... **35**

**Atodiad 4: Geirfa** .... **37**

# 01. Rhagair

Mae gan Aelodau'r Cynulliad gryn gyfrifoldeb a braint yn eu rôl o gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, deddfu ar gyfer Cymru a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. Rôl Comisiwn y Cynulliad yw darparu staff a gwasanaethau cymorth arbenigol o safon uchel i sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad wedi'u paratoi'n iawn i wneud eu gwaith craffu, deddfu a chynrychioli ac i fodloni disgwyliadau pobl Cymru.

Gwella bywyd pawb sy'n byw yn Nghymru

Yn 2011, aeth y Comisiwn ati i sefydlu rhaglen strategol glir ar gyfer buddsoddi a darparu gwasanaethau ar gyfer y tair blynedd ariannol nesaf. Rydym wedi cyflawni a chynnal y cynlluniau hirdymor hynny. Blwyddyn olaf y strategaeth gyllidebol honno fydd 2014-15 ac mae lefel y cyllid a geisir yr un faint â'r swm a nodwyd yn wreiddiol yn y strategaeth tair blynedd. Yn y ddogfen gyllideb hon, nodwn y cynnydd yr ydym wedi'i wneud a'r mannau y mae angen canolbwyntio mwy arnynt dros y flwyddyn ariannol nesaf.

O'r cychwyn cyntaf, cefnogodd Pwyllgor Cyllid y Cynulliad gais y Comisiwn am yr adnoddau sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaethau sy'n angenrheidiol i gefnogi'r Cynulliad, drwy weithio'n effeithlon ond heb wneud toriadau a fyddai wedi cael effaith niweidiol ar swyddogaethau'r Cynulliad. Y llynedd, awgrymodd y Pwyllgor Cyllid, ar ddiwedd y cyfnod buddsoddi tair blynedd hwn, y byddai'n disgwyl i gyllidebau'r Comisiwn ar gyfer 2015-16 a 2016-17 gynyddu gan ddim mwy na'r newid cyfatebol yng nghyllideb Llywodraeth Cymru. Mae ein cynigion cyllidebol tymor hwy yn adlewyrchu'r argymhelliad hwn.

Drwy fuddsoddi yn ein staff a'n seilwaith, bwriadwn godi safonau'r gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael i'r Aelodau. Byddwn yn datblygu ac ehangu arbenigedd mewn pynciau ac yn ymgysylltu'n fwy effeithiol â phobl ledled Cymru a'r byd.

Yn anochel, mae'n rhaid inni wneud dewisiadau pwysig er mwyn cyflawni ein huchelgeisiau yn wyneb heriau ariannol sylweddol parhaus ar draws cyllidebau'r sector cyhoeddus. I sicrhau y caiff yr adnoddau eu defnyddio mewn meysydd blaenoriaeth, mae ein cynllun corfforaethol yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer newid, arloesedd a buddsoddiad dros weddill cyfnod y Cynulliad hwn. Caiff y rhain eu hadlewyrchu yn y cynigion cyllideb hyn. Mae gennym fframweithiau cadarn ar waith ar gyfer cynllunio gwasanaethau, adrodd ar berfformiad a sicrhau gwerth am arian. Mae Bwrdd Buddsoddi, o dan arweiniad y Prif Weithredwr, yn sicrhau y caiff ein rhaglen newid ei rheoli, ei chynllunio a'i harolygu'n gadarn.

Bu inni groesawu argymhelliad y Pwyllgor Cyllid y llynedd a oedd yn gofyn inni gyflwyno mesurau perfformiad clir. Gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad cyntaf ym mis Medi 2013, ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2013, i alluogi'r Pwyllgor - a phobl Cymru - i farnu ein perfformiad a'n defnydd o adnoddau.

Mae'r gyllideb hon ar gyfer 2014-15 yn nodi bod angen cyfanswm o £50.6 miliwn ar gyfer adnoddau, yn unol â'r cynlluniau y craffodd y Pwyllgor Cyllid arnynt yn 2011 a 2012. Bydd y gyllideb:

– yn ein galluogi i ddarparu'r adnoddau priodol ar gyfer gwasanaethau ac i fuddsoddi mewn gwaith datblygu angenrheidiol;

– yn cynnwys tystiolaeth am ein cynnydd tuag at gyflawni amcanion strategol y Comisiwn i ddangos ein bod yn cyflawni'r hyn y dywedwn y byddwn yn ei gyflawni;

– yn cynnal yr un berthynas rhyngddi â bloc Cymru ag a fu ers sawl blwyddyn – sef 0.3% o gyfanswm y cyllid a ddaw i Gymru.

– yn cynnwys targed gwerth am arian i sicrhau ein bod yn parhau i ddefnyddio arian cyhoeddus yn ddoeth ac effeithiol.

Mae'r Comisiwn yn gwasanaethu'r Cynulliad Cenedlaethol i helpu i'w wneud yn sefydliad democrataidd cryf, hygyrch a blaengar ac yn ddeddfwrfa sy'n cyflawni'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru. Bydd y gyllideb hon yn ein rhoi mewn sefyllfa i wneud hyn yn 2014-15.

Dangos hyder cyhoeddus yn ein gallu i ddefnyddio adnoddau yn ddoeth.



**Rosemary Butler,**
**Y Llywydd a Chadeirydd Comisiwn y Cynulliad**



**Angela Burns,**
**Comisiynwr**



**Peter Black,**
**Comisiynwr**



**Sandy Mewies,**
**Comisiynwr**



**Rhodri Glyn Thomas,**
**Comisiynwr**

## 02. Comisiwn y Cynulliad 2011-2016

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae Comisiwn y Cynulliad yn gwasanaethu'r Cynulliad Cenedlaethol i helpu i'w wneud yn sefydliad democrataidd cryf, hygyrch a blaengar ac yn ddeddfwrfa sy'n cyflawni'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru.

**Mae'r Comisiwn wedi datgan y bydd y Pedwerydd Cynulliad yn canolbwyntio'n strategol ar:**

**Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf.**

Ers 2011, bu'r Cynulliad mewn sefyllfa gyfansoddiadol newydd, a byddwn yn cynnig cefnogaeth briodol i Aelodau'r Cynulliad wrth iddynt gynrychioli Cymru a'i phobl, deddfu ar gyfer Cymru a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

– Bydd gweithredu'r nod strategol hwn yn llwyddiannus yn sicrhau'r canlyniadau a ganlyn:

  – enw da cynyddol am waith craffu da a phroses ddeddfwriaethol agored a chadarn;
  – ethos gwasanaeth sefydledig, sy'n arwain at berthynas gryfach fyth ag Aelodau'r Cynulliad a'u staff;
  – gwasanaethau o safon uchel i'r cyhoedd ym mhob agwedd ar ein gwaith.

**Ymgysylltu â phobl Cymru a Hyrwyddo Cymru**

Byddwn yn creu amgylchedd sy'n annog diddordeb yng ngwaith y Cynulliad ac sy'n hwyluso ymgysylltiad â swyddogaethau deddfu, craffu a chynrychioli'r Cynulliad. Byddwn yn ymgysylltu'n frwd ac yn eang, ac yn sicrhau bod y Cynulliad yn cael budd o'r egni creadigol sy'n deillio o'r ymgysylltiad hwnnw. Drwy weithio fel llysgennad i Gymru dros y byd, byddwn yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd yn y DU a thramor i hybu Cymru a gwaith y Cynulliad, a chwarae ein rhan yn natblygiad democratiaeth seneddol mewn gwledydd eraill dros y byd.

– Bydd gweithredu'r nod strategol hwn yn llwyddiannus yn sicrhau'r canlyniadau a ganlyn:

  – bod gwybodaeth ar gael yn rhwydd i bobl Cymru sy'n dangos hyd a lled a gwerth gwaith y Cynulliad ac Aelodau'r Cynulliad, gan godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o waith y Cynulliad fel bod y Cynulliad yn aeddfedu yng ngolwg y cyhoedd;
  – gwybodaeth well gan y cyhoedd am y Cynulliad a llwyddiannau datganoli a chanfyddiad gwell ohonynt;
  – rhagor o gyfranogiad mewn democratiaeth drwy amryw o gyfryngau;
  – gwaith cynhyrchiol gydag ystod ehangach o randdeiliaid ee drwy ragor o ymgysylltu â phwyllgorau;

- cyflwyno delwedd gadarnhaol o Gymru a'i democratiaeth ar y llwyfan rhyngwladol drwy ymwneud â chyrff rhyngwladol perthnasol a sefydlu partneriaethau â sefydliadau rhyngwladol allweddol;
- gwybodaeth am feithrin a rhannu arfer da rhyngwladol a dealltwriaeth ohono; a
- mynd ar drywydd themâu penodol, gan ddangos cryfder democratiaeth Cymru gan gynnwys: cyfranogaeth dinasyddion, e-ddemocratiaeth, craffu'n effeithiol ar y Llywodraeth, a democratiaeth gynaliadwy a thryloyw.

### Defnyddio adnoddau'n ddoeth

Byddwn yn gwneud y buddsoddiadau angenrheidiol i sicrhau bod gan y Cynulliad yr adnoddau angenrheidiol i weithredu'n effeithiol fel senedd sydd â phwerau deddfu newydd. Ar yr un pryd, byddwn yn atgyfnerthu hyder Aelodau'r Cynulliad a phobl Cymru yn y ffordd y byddwn yn darparu gwasanaethau ac yn rheoli costau drwy wneud defnydd da o arian y trethdalwr. Byddwn yn rheoli ein hadnoddau er mwyn darparu gwasanaeth cyhoeddus hanfodol mewn ffordd fwy effeithlon a chan gynnig gwell gwerth am arian.


- Bydd gweithredu'r nod strategol hwn yn llwyddiannus yn sicrhau'r canlyniadau a ganlyn:
  - buddion drwy brosiectau, gan gynnwys ffyrdd gwell o weithio yn y Cynulliad;
  - cael adroddiadau archwilio diamod ar Gyfrifon Blynyddol y Comisiwn ac adroddiadau cadarnhaol i Gomisiwn y Cynulliad gan Bwyllgor Archwilio Comisiwn y Cynulliad;
  - sicrwydd ynghylch ein defnydd o adnoddau a'n harbedion gwerth am arian drwy'r Rhaglen Archwilio Mewnol;
  - tystiolaeth glir o'r gwerth am arian yr ydym yn ei gynnig.

Mae angen yr adnoddau priodol er mwyn gweithredu'r nodau strategol yn llwyddiannus, o ran cael cyllideb ddigonol a gweithlu sydd â'r sgiliau angenrheidiol ac sydd wedi'i ysgogi i ddarparu'r cymorth yn gyflym, gydag arbenigedd ac ethos gwasanaeth cryf. Mae'r gyllideb hon yn amlygu ein cynnydd a'n cynlluniau ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad wrth inni weithio tuag at weithredu'r nodau strategol yn llwyddiannus.

## 03. Cost y CynulliadCenedlaethol

Tua £15 biliwn yw cyfanswm y cyllid a ddaw i Gymru bob blwyddyn o dan 'floc Cymru'. Mae bron y cyfan o'r arian hwnnw yn ariannu'r broses o ddarparu'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a ddarperir yn sgîl penderfyniadau Llywodraeth Cymru. Rôl y Cynulliad yw craffu ar weithrediadau a gwariant Llywodraeth Cymru a'u herio, deddfu ar gyfer Cymru, a chynrychioli buddiannau pobl Cymru. Yn 2014-15, £50.6 miliwn fydd y gost o wneud hyn, sy'n 0.3% o floc Cymru.

**Cost Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2014-15**




Mae'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2014-15 yn cynnwys:

- £14.1 miliwn i ddarparu'r gyllideb ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad. Mae'r Penderfyniad yn pennu'r cyllid ar gyfer cyflogau Aelodau'r Cynulliad, eu staff cymorth, a chostau rhedeg eu swyddfeydd etholaethol/rhanbarthol ledled Cymru. Mae cyflogau'r Aelodau'n parhau i fod wedi'u rhewi ers 2011. Gweler adran 7 am ragor o fanylion;
- £17.4 miliwn i gyflogi 395 aelod o staff Comisiwn y Cynulliad (gan gynnwys timau TGCh mewnol);
- £19.1 miliwn i dalu am gostau gweithredu eraill, gan gynnwys:
    - £12.2 miliwn o gostau sefydlog
    - £5.2 miliwn o gostau amrywiol
    - £1.7 miliwn ar gyfer ein rhaglen fuddsoddi

– £0.5 miliwn o arian wrth gefn

– £0.5 miliwn yn sgîl arbedion effeithlonrwydd

Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth mewn tablau rhifol.

Mae'r cyllidebau a benwyd ers blwyddyn gyntaf y Pedwerydd Cynulliad wedi nodi'r achos dros y buddsoddiad ym mlaenoriaethau'r Cynulliad i sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad yn cael y gwasanaeth seneddol o'r radd flaenaf sydd ei angen arnynt i gefnogi eu gwaith. Ein nod yw darparu busnes y Cynulliad mewn ffordd fwy integredig ac effeithlon, gan gynnal y safonau uchel sydd eu hangen i gefnogi gwaith pwyllgorau a Chyfarfod Llawn y Cynulliad.

**Rheoli ein gwariant**

Erbyn diwedd y Pedwerdydd Cynulliad, rydym yn disgwyl y byddwn wedi rheoli ein cyllideb gyda £2.3 miliwn yn llai nag y byddem wedi'i gael pe bai Cyllideb 2010-11 wedi glynu wrth chwyddiant.

Yn ystod yr un cofnod, rydym yn amcangyfrif y byddwn wedi osgoi cynnydd pellach drwy:

– sicrhau gostyngiadau mewn costau gweithredu net, er enghrafft drwy newid sut y caiff gwasanaethau eu darparu, drwy drafod cytundebau, lleihau anghenion gwasanaethau;

– penderfyniad y Bwrdd Taliadau i rewi cyflogau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad, gan sicrhau gostyngiad o £2 filiwn o leiaf yn y cyllid sydd ei angen

Rydym wedi mirienio ein trefniadau rheoli arian ymhellach er mwyn sicrhau bod yr arian sydd ar gael i ni ym mhob blwyddyn ariannol yn cael yr effaith fwyaf.

Drwy wella'n gallu i rag-weld a dadansoddi amrywiadau rydym wedi medru gosod targedau alldro mwy uchelgeisiol ac yna wedi llwyddo i'w cyrraedd.

Drwy ein strategaeth ar gyfer y gyllideb, byddwn wedi buddsoddi £7.4 miliwn drwy roi prosiectau ar waith i geisio cyflawni ein nodau strategol.

**Tabl buddsodiadau cryno: blynyddoedd ariannol 2011-16**

| Nod Strategol | | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | Swm |
|---|---|---|---|---|---|
| | Wedi'i wneud | Yn ei wneud | Yn cynllunio ei wneud | Ar y gorwel | £m |
| Darparu Cymorth Seneddol o'r Radd Flaenaf | 1.2 | 0.2 | 0.7 | 1.1 | 3.2 |
| Gwasanaethau TGCh yn y Dyfodol | 0.1 | 1.3 | 0.2 | 0.1 | 1.7 |
| Ymgysylltu â Phobl Cymru a Hyrwyddo Cymru | 0.4 | 0.5 | 0.1 | 0.1 | 1.1 |
| Defnyddio Adnoddau'n Ddoeth | 0.1 | 0.3 | 0.7 | 0.3 | 1.4 |
| **Total** | **1.8** | **2.3** | **1.7** | **1.6** | **7.4** |


Mae'r £7.4 miliwn hwn yn cynnwys buddsoddiad mewn prosiectau penodol i ddarparu seilwaith rhwydwaith di-wifr, gwaith i ddiweddaru'r Senedd a Senedd.tv (gan gynnwys diweddaru'r adnoddau sain a chlyweledol a'r dechnoleg yn y Siambr), ailwampio mannau cyhoeddus yn ein Hystâd a symud/ailwampio siop a chaffi'r Senedd i ymwelwyr.

Rydym hefyd wedi buddsoddi yn sgiliau sylfaenol ein staff, gan gynyddu ein hadnoddau mewn perthynas â nifer yr arbenigwyr ymchwil ariannol ac economaidd; sgiliau cyfraith fusnes a chorfforaethol; rhaglen brentisiaeth; datblygu proffesiynol ar gyfer yr Aelodau a'u staff cymorth; arbenigedd caffael ac AD; cyfleoedd i fynd ar secondiad ac i gysgodi swyddi; a sgiliau allweddol o'r tu allan i reoli prosiectau yn ôl y galw.

Mae'r gwasanaeth TGCh wrthi'n cael ei drawsnewid i ddarparu gwasanaethau TGCh craidd gyda'n staff medrus yn dilyn y penderfyniad i adael contract TGCh Merlin Llywodraeth Cymru erbyn haf 2014.

Mae'r graff a ganlyn yn dangos ein cynnydd a'n cyfeiriad.

**Cynnydd o ran buddsoddi i gyflawni ein nodau strategol 2011-16**




Mae'r cyfnod buddsoddi hefyd yn adlewyrchu ein hymateb i'r strwythur pwyllgorau newydd a roddwyd ar waith yn y Pedwerydd Cynulliad.  Mae'r Comisiwn yn gweithio i drawsnewid ei wasanaethau pwyllgor, deddfwriaeth, ymchwil a chyfreithiol.   I gefnogi hyn, mae gwasanaethau addysg ac allgymorth y Comisiwn, yn ogystal â gwasanaethau TGCh sy'n cael blaenoriaeth, yn canfod ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau cadarn ac arloesol ar gyfer busnes y Cynulliad. Mae'r tîm addysg yn ailganolbwyntio ei adnoddau i gynyddu'r cyfleoedd i lywio busnes y Cynulliad ac i gymryd rhan ynddo, gan gynnwys sefydlu grŵp llywio sydd â'r dasg o sicrhau bod pobl ifanc ledled Cymru yn chwarae mwy o ran ym musnes y Cynulliad ac yn ymgysylltu mwy ag ef.

## 04. Cymorth Seneddol o'r Radd Flaenaf

Mae busnes ffurfiol y Cyfarfod Llawn a'r pwyllgorau wrth wraidd yr hyn a wna'r Cynulliad fel deddfwrfa. Dyna lle y caiff y Llywodraeth ei dwyn i gyfrif, a chaiff ei chynigion ar gyfer deddfwriaeth, a'i syniadau, cyflawniadau a phenderfyniadau polisi, eu gwella gan waith craffu'r Cynulliad. Mae 70% o holl Aelodau'r Cynulliad yn cymryd rhan uniongyrchol yng ngwaith y pwyllgorau, gyda dros 50% o Aelodau yn ymwneud ag o leiaf dau bwyllgor. Mae'r Comisiwn yn credu bod rhagoriaeth barhaus arbenigedd staff y Comisiwn a'r broses barhaus o'u hintegreiddio yn allweddol er mwyn cyflawni ein nod o ddarparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf yn llwyddiannus.

**Cost Cymorth Seneddol o’r Radd Flaenaf yn 2014-15**




Swyddogaethau strategol craidd system bwyllgorau'r Cynulliad yw:

– Craffu ar Filiau a chynigion deddfwriaethol eraill, cyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad gydag argymhellion ynghylch sut i'w gwella, a thrafod gwelliannau i Filiau;

– Archwilio cyllid a pherfformiad rhannau perthnasol o Lywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus cysylltiedig ac eraill sy'n berthnasol i Gymru; ac

– Archwilio'r broses o weithredu polisi, deddfwriaeth ac ymrwymiadau eraill Llywodraeth Cymru ac adrodd arni, gan gynnwys nodi a chraffu ar feysydd polisi Llywodraeth Cymru, neu feysydd lle mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn ddiffygiol, a gwneud cynigion ar sut i'w gwella.

### Rhagoriaeth ac integreiddio gwasanaethau i gefnogi busnes y Cynulliad

Ym mlwyddyn gyntaf y Cynulliad hwn, roedd y rhan fwyaf o weithgaredd y pwyllgorau yn canolbwyntio ar ddatblygu polisi a gwaith craffu arall wrth i raglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth gyflymu.  Heddiw, mae gan y Cynulliad lawer iawn o waith deddfwriaethol ac mae'n rhaid cydbwyso hwn â'r gwaith polisi a gwaith arall y pwyllgorau.

Er bod cyfuno rôl y pwyllgorau o graffu ar ddeddfwriaeth a pholisi wedi lleihau nifer y pwyllgorau o gymharu â'r Cynulliad blaenorol, mae eu llwyth gwaith o leiaf yr un mor fawr. Yn ogystal ag archwilio rhaglen gynyddol o ddeddfwriaeth a chael llawer iawn o waith ar ymchwiliadau, mae'r pwyllgorau hefyd yn archwilio cynigion deddfwriaethol o San Steffan pan fydd y cymhwysedd deddfwriaethol wedi'i rannu. Mae Aelodau a phwyllgorau yn fwy abl nag erioed i graffu ar y materion hyn, ar ôl iddynt ymdrin â dwywaith mwy o gynigion cydsyniad deddfwriaethol yn ystod naw mis cyntaf 2012-13 nag a wnaethant yn 2011-12 ar ei hyd.

O fewn yr un cyfnod, mae nifer y Biliau wedi cynyddu bedair gwaith o gymharu â'r 12 mis blaenorol.

Ar gyfer pob Pwyllgor, mae angen sicrhau bod yr hyblygrwydd i ddarparu cymorth arbenigol o safon uchel ar gyfer gwaith polisi a deddfwriaeth wedi'i integreiddio'n well a'i fod yn fwy ymatebol i anghenion y pwyllgorau. Mae rôl Cadeirydd Pwyllgor yn un hanfodol. Mae'n gyfrifol am roi cyfeiriad strategol ac am sicrhau bod rhaglen gytbwys, gynhwysfawr ac effeithiol ar gyfer craffu ar ddeddfwriaeth, polisi a chyllid.

Yn benodol, mae’r tîm allgymorth wedi hoelio’i sylw ar gefnogi ymchwiliadau ar gyfer y pwyllgorau polisi a deddfwriaeth ers dechrau’r pedwerydd Cynulliad. Gwelwyd y tîm yn gweithio gyda chlercod, ymchwilwyr ac Aelodau’r Cynulliad i gasglu tystiolaeth mewn ffyrdd arloesol gydag amrywiaeth ehangach o bobl. Mae’r tîm allgymorth wedi datblygu pecyn cymorth cyfathrebu sy’n adnawdd ar-lein.

Mae’r enghreifftiau diweddaraf yn cynnwys: cynhyrchu pecynnau fideo ar gyfer ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Busnes i Entrepreneuriaeth Ieuenctid; gan gyfuno gwaith y gwasanaeth addysg; y tîm sy’n trefnu teithiau o amgylch y Senedd a’r tîm allgymorth yn casglu ymatebion i arolwg ar gyfer yr ymchwiliad i Weithredu’r Mesur Dysgu a Sgiliau gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc; cynnal wyth o grwpiau ffocws gyda phobl hŷn mewn canolfannau dydd i gasglu tystiolaeth ar gyfer ymchwiliadau Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i’r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) a threfnu digwyddiad ‘caffi’r byd’ ar gyfer ymchwiliad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i Addasiadau yn y Cartref.

Mae adolygiad y Comisiwn o'r cymorth i bwyllgorau wedi ysgogi ystod o welliannau ymarferol i'r gwasanaethau a ddarperir. Mae'r enghreifftiau o hyn yn cynnwys dulliau arloesol o gasglu tystiolaeth, ychwanegu ystod o ddulliau gwahanol o ddarparu gwybodaeth ymchwil, rhestrau dwyieithog o dermau technegol, cymorth wedi'i deilwra ar gyfer gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg, treialu rhaglen (ModGov) ar gyfer tabledi a ffonau clyfar sy’n caniatáu i’r Aelodau lawrlwytho papurau pwyllgor yn electronig i’w dyfeisiadau, datblygu llif Twitter, sefydlu trefn ar gyfer cyflwyno papurau i bwyllgorau’n gynharach a chysylltu'n gynharach ag arbenigwyr pwnc a thystion.

Yn ddiweddarach eleni, mae'r Comisiwn yn bwriadu cymeradwyo ei fodel ei hun ar gyfer gwaith craffu o safon fyd-eang sy'n adlewyrchu'r pwysau penodol ar ddeddfwrfa fach, ein dull dwyieithog o weithio, ein defnydd o TGCh a'n huchelgeisiau ar gyfer gwasanaethau allgymorth ac ymchwil, a gwasanaethau eraill.

Rydym wedi creu tîm bach newydd sy'n gyfrifol am drawsnewid busnes y Cynulliad. Bydd yn canolbwyntio ar ddatblygu ein gwasanaethau mewn modd strategol yn y tymor hwy ac, yn benodol, tair ffrwd gwaith:

– cynllunio a dylanwadu gweithredol mewn perthynas â newid cyfansoddiadol a rôl y Cynulliad (er enghraifft, gwaith Comisiwn Silk a newid cyfansoddiadol ehangach o fewn y DU);

– rheoli prosiectau pwysig sy'n ymwneud yn uniongyrchol â datblygu busnes y Cynulliad (er enghraifft, caffael system gyfieithu beirianyddol bwrpasol; datblygu'n gwaith o ymgysylltu ag ieuenctid; Cofnod y Trafodion clyweledol/ysgrifenedig chwiliadwy; trawsnewid y gwasanaethau TGCh sydd ar gael yn y Senedd);

– cefnogi a chyngori'r Bwrdd Taliadau.

Wrth inni barhau i ddatblygu'r Cynulliad yn ddeddfwrfa o safon fyd-eang, dylem hefyd sicrhau ein bod yn datblygu'r bobl a fydd yn gwireddu'r weledigaeth honno.

**Y Llywydd,**
**Rosemary Butler**

Mae disgwyliadau'r cyhoedd yng Nghymru o ran y cyfraniad y bydd eu Haelodau Cynulliad yn ei wneud i wella bywyd cyhoeddus yn parhau yn uchel.

Mae cyfleoedd ar gyfer datblygu proffesiynol parhaus yn ein helpu i wneud y defnydd gorau o allu'r Cynulliad ac i sicrhau y gall Aelodau ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i bobl Cymru. Mae dros 60% o Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth wedi manteisio ar ystod eang o gyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus.

Y ddwy raglen benodol sydd wedi cael yr ymateb mwyaf cadarnhaol yw:

– Craffu Deddfwriaethol - rhaglen wedi'i theilwra a ddatblygwyd ac a ddarparwyd gan y seneddwr, Daniel Greenberg, a Chlercod Deddfwriaeth y Cynulliad

– rhaglen 6 modiwl o hyfforddiant pwrpasol ar waith craffu ariannol, a ddatblygwyd ar y cyd gyda'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth.

Mae'r Comisiwn hefyd yn gweithio gyda Chanolfan Llywodraethiant Cymru i gynnal cyflwyniadau ar bynciau fel arolwg Silk, refferendwm yr Alban a datganoli yn Lloegr. Rydym yn cydweithio â deddfwriaethau eraill y DU i rannu ein harferion, ein profiadau a'n gwerthusiad o ddarparwyr gwasanaethau. Rydym hefyd yn datblygu cyrsiau ar-lein, gan ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i sicrhau y gallwn gyrraedd staff cymorth mewn swyddfeydd etholaethol a rhanbarthol.

Mae'r cyrsiau y bwriedir iddynt ganiatáu i'r Aelodau a'u staff gefnogi etholwyr yn cynnwys rheoli gwaith achos, cefnogi pobl sy'n agored i niwed, budd-daliadau anabledd a diwygio lles, cymorth cyntaf, ymdrin â straen, a meithrin gwytnwch emosiynol.

## Y Cynulliad fel deddfwrfa

Ers y bleidlais lwyddiannus o blaid rhoi rhagor o bwerau deddfu i'r Cynulliad ym mis Mawrth 2011, rydym wedi gweld datblygiad sylweddol yng nghymlethdod ac uchelgais y

ddeddfwriaeth sy'n dod gerbron y Cynulliad. Bu cynnydd amlwg hefyd yn nifer y Biliau a gyflwynwyd, ar ôl i Lywodraeth Cymru amlinellu ei rhaglen ddeddfu[1] sy'n cynnwys 22 o Filiau yn ystod tymor y Cynulliad. Wrth i'r Cynulliad archwilio a phrofi ei ffiniau deddfu newydd, mae'n debygol y bydd ei ddeddfwriaeth yn wynebu heriau cyfreithiol; yn 2012, cafwyd yr her gyfreithiol gyntaf yn y Goruchaf Lys i ddeddfwriaeth gan y Cynulliad.  O gofio natur unigryw'r setliad datganoli yng Nghymru, mae'n anhebygol mai hon fydd yr her olaf i Ddeddf Cynulliad.

Mae profion newydd eraill yn codi o bwerau deddfu'r Cynulliad. Mae'r Cynulliad wedi llunio ei weithdrefn ei hunan sy'n addas i'r diben ar gyfer ymdrin â deddfwriaeth breifat ac mae wedi defnyddio'r weithdrefn ar gyfer Bil Brys am y tro cyntaf. Mae hyn oll yn gofyn am Gynulliad sy'n gallu addasu ac ymateb, wedi'i gefnogi gan gyngor cyfreithiol, gweithdrefnol ac ymchwil cadarn sydd wedi'i ddatblygu ar sail dealltwriaeth seneddol gadarn.

Fel y rhagwelwyd, rydym hefyd wedi gweld cynnydd yn nifer y Biliau gan Aelodau, sydd wedi ysgogi'r angen am sgiliau drafftio deddfwriaeth gwell ac amserlenni tynnach.  Mae un enghraifft ddiweddar, y Bil Safleoedd Rheoleiddiedig Cartrefi Symudol (Cymru), yn Fil Aelod sy'n diddymu tair Deddf (mae dwy ohonynt yn dyddio o'r 1960au) ac yn eu dwyn ynghyd mewn un Bil modern sy'n addas i'r diben.  Mae hon yn enghraifft o ddeddfwriaeth yn cael ei gwneud yn fwy hygyrch a pherthnasol i bobl Cymru. Mae'n dangos bod y Cynulliad yn aeddfedu yn ei ddefnydd o'i gymhwysedd deddfwriaethol.

Mae'r Comisiwn yn datblygu ei Wasanaethau Cyfreithiol i sicrhau y gwneir y defnydd gorau o'n harbenigedd a'n capasiti cyfreithiol.  Yn benodol, mae'n ystyried y cymorth sydd ei angen ar gyfer drafftio Biliau Aelodau, gallu cyfreithiol corfforaethol a masnachol y Comisiwn ac a oes galw heb ei ateb am wasanaethau cyfreithiol.

[1] Linc i wefan y Llywodraeth i gael rhagor o wybodaeth http://wales.gov.uk/legislation/programme/5yearplan/;jsessionid=23DE5417EFB29E324B21EBC2E8E7C2A2?skip=1&lang=cy


# Cymorth Seneddol o'r Radd Flaenaf

<table>
<tr><th>Wedi'i wneud<br>(ers 2011-12)</th><th>Yn cael ei wneud<br>(2013-14)</th><th>Cynlluniau ar y gweill<br>(2014-15)</th><th>Ar y gorwel<br>(2015-16)</th></tr>
<tr><td colspan="4">Gweithrediadau</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Ymgynghori â Chadeiryddion a'r Pwyllgor Busnes</td><td colspan="2">Rhoi ffyrdd newydd o gefnogi'r Pwyllgorau ar waith</td><td rowspan="2"></td></tr>
<tr><td>Datblygu modiwlau hyfforddi ariannol ar gyfer Aelodau Cynulliad</td><td>Hyfforddiant ar gyllid i Glercod, staff cymorth Aelodau'r Cynulliad ac ymchwiliwyr</td></tr>
<tr><td colspan="4">Buddsoddiadau</td></tr>
<tr><td>Meddalwedd deddfwriaethol</td><td colspan="3">Y Gwasanaeth Trawsnewid Strategol a pharatoi ar gyfer newid cyfansoddiadol cynyddol</td></tr>
<tr><td>Ailstrwythuro'r Pwyllgor Busnes - seilwaith</td><td colspan="2">Gwella Gwasanaeth y Pwyllgorau<br>– casglu gwybodaeth mewn ffordd arloesol<br>– ystod ehangach o ddulliau o friffo ar waith ymchwil<br>– cymorth wedi'i deilwra<br>– cyfrifon Twitter<br>– arbenigwyr ar bynciau a thystion sy'n arbenigwyr</td><td></td></tr>
<tr><td rowspan="2">Y Rhaglen Datblygu Proffesiynol Parhaus i Aelodau a'u staff cymorth</td><td>Sgiliau cyfreithiol ar gyfer gwelliannau i Filiau (Clercod)</td><td></td><td rowspan="2"></td></tr>
<tr><td>Y Gyfarwyddiaeth Gyfreithiol - rhaglen hyfforddi wedi'i theilwra ar gyfer staff</td><td>Mwy o gapasiti ar gyfer drafftio deddfwriaeth (mewnol)</td></tr>
</table>


## Dangosyddion perfformiad a gwybodaeth arall

| 699 | 1,269 | 2,180 | 60%+ |
|---|---|---|---|
| o oriau Pwyllgor | o gyfleoedd hyfforddi wedi'u darparu | o oriau o gyfieithu ar y pryd (ar gyfer y Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd Pwyllgor) | o Aelodau a'u staff cymorth ar gyfleoedd i hyfforddi |

**Buddsoddiad o £3.2 - cynnydd o ran sicrhau cymorth seneddol o'r radd flaenaf 2011-16**




## Dangosyddion Perfformiad Allweddol




## Gwerth am arian

– Llwybrau caffael newydd

– Symleiddi dulliau o weithio

– Cynllunio'n well

## Gwasanaethau dwyieithog gwell

Ar 3 Hydref 2012, rhoddwyd cymeradwyaeth unfrydol i'r Ddeddf gyntaf a basiwyd yng Nghymru ers y drydedd ganrif ar ddeg. Mae'r Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012, a gyflwynwyd gan y Comisiwn, yn gosod dyletswydd statudol ar y Cynulliad a'r Comisiwn i drin y Gymraeg a'r Saesneg fel ein hieithoedd swyddogol ac i drin y ddwy iaith yn gyfartal.

Ein huchelgais yw bod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog lle gall Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd ddewis gweithio a chyfathrebu drwy ddefnyddio'r naill iaith neu'r llall neu'r ddwy iaith swyddogol, ac yn sefydliad lle bydd y defnydd o'r ddwy iaith yn destun balchder i bawb. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau ar y Comisiwn i sicrhau y gall pob ymgysylltiad â thrafodion y Cynulliad ddigwydd drwy gyfrwng y naill neu'r llall o'r ieithoedd swyddogol, ac mae ein Cynllun Ieithoedd Swyddogol yn nodi'r gwaith a wnawn i sicrhau ein bod yn parhau i godi'r safonau i sefydliadau eraill eu cyrraedd, yn y DU ac yn rhyngwladol.

Byddwn yn gweithredu mewn pedwar prif faes:


- Gwella gwasanaethau dwyieithog drwy ddefnyddio cymorth arloesol wedi'i deilwra;
- Buddsoddi mewn technoleg;
- Datblygu sgiliau iaith a hyder staff y Comisiwn; a
- Rhannu ein profiadau â sefydliadau eraill yng Nghymru a gweithredu ar y gwersi a ddysgwyd.

Byddwn yn cyflwyno adroddiad ar y cynnydd a wnawn ar sail ein Cynllun Ieithoedd Swyddogol.

## Darparu gwasanaethau TGCh yn y dyfodol

Ar ôl gwrando ar adborth gan yr Aelodau, ym mis Rhagfyr 2012, penderfynodd y Comisiwn mai'r dewis cywir i'r Cynulliad fyddai iddo reoli ei wasanaethau TGCh yn uniongyrchol, a fydd yn newid sylweddol o gymharu â'r 13 o flynyddoedd blaenorol. O ganlyniad, bydd y Comisiwn yn gadael y trefniadau contract sy'n cael eu darparu gan ffynhonnell allanol ar hyn o bryd erbyn haf 2014.  Mae'n hanfodol y ceir trosglwyddiad rhwydd, felly mae llawer o weithgaredd ar y gweill eisoes er mwyn cynllunio a pharatoi ar gyfer hyn.

**Costau TGCh yn 2014-15**



Mae'r Prosiect Trawsnewid TGCh yn adolygu'r seilwaith a'r gwasanaethau cysylltiedig presennol, yn paratoi gweithdrefnau a phrosesau newydd ar gyfer y gwasanaeth mewnol, yn arolygu contractau cyfredol, yn recriwitio a datblygu staff, ac yn paratoi staff i drosglwyddo o'n contractwr.  Mae'r cyfnod hwn o newid hefyd yn rhoi cyfle i ystyried yn llawn sut i wella dibynadwyedd a hygyrchedd gwasanaethau a sut y gellir darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio mwy ar y defnyddiwr.

Wrth baratoi i drosglwyddo o un gwasanaeth i'r llall ac i lansio strategaeth TGCh newydd y Comisiwn, rydym wedi gweithredu nifer o fesurau, gan gynnwys: -cyflymu'r broses o recriwtio staff TGCh, datblygu sgiliau arbenigol ar gyfer darnau penodol o waith, ymgysylltu ag arweinwyr mewn diwydiant i helpu i bennu manylion datblygiad strategol ein rhaglenni, a rhyddhau staff i gefnogi'r broses drawsnewid (Cyllid, Adnoddau Dynol a Chyfreithiol).

Gan edrych ymlaen, mae'r Comisiwn yn bwriadu darparu gwasanaethau TGCh mwy hyblyg, sy'n seiliedig ar angen a dewis y defnyddiwr, gwella lefel bodlonrwydd defnyddwyr TGCh a bod yn fwy arloesol wrth inni sefydlu'r Cynulliad fel arweinydd yn y defnydd arloesol o TGCh.  Mae angen cael model busnes newydd ar gyfer y trawsnewid hwn sy'n rhoi anghenion busnes y Cynulliad wrth galon ei fuddsoddiadau a'i benderfyniadau.   Mae strategaeth TGCh y Comisiwn yn nodi'r weledigaeth ar gyfer darparu gwasanaethau ac atebion TGCh rhagorol sy'n cyfrannu at gymorth seneddol ardderchog ac yn gwella'r ymgysylltiad â phobl Cymru:


– Datblygu rhaglenni busnes craidd sy'n cefnogi gwaith y Cynulliad yn well;

– Cynyddu gallu a dewis defnyddwyr;

– Darparu atebion arloesol a hyblyg;

– Gwella'r broses o reoli gwybodaeth'

– Cynnal seilwaith priodol a dibynadwy.




# Gwasanaethau TGCh yn y dyfodol

| Wedi'i wneud (ers 2011-12) | Yn cael ei wneud (2013-14) | Cynlluniau ar y gweill (2014-15) | Ar y gorwel (2015-16) |
|---|---|---|---|
| **Gweithrediadau** | | | |
| Enwi unigolion cyswllt TGCh | Defnyddio eich dyfais eich hun | Darparu gwasanaethau 'cwmwl' | |
| Cynorthwywyr TGCh ar bob llawr | Ffonau clyfar | Dyfeisiadau symudol | |
| | Dyfeisiadau symudol | | |
| **Buddsoddiadau** | | | |
| Prosiect diweddaru'r Senedd: Camau 1 a 2 | Prosiect diweddaru'r Senedd: Cam 3 | Ffonau | Darparu dyfeisiadau newydd |
| Wi-Fi - Seilwaith | Wi-Fi - cyhoeddus | | Gwaith cyn yr etholiad |
| Diogelwch Data | Mynediad at ddata | | |
| | System Rheoli Busnes Corfforaethol | | |
| | Cyfarpar fideogynadledda | System y Gwasanaeth Ymchwil | |


## Dangosyddion perfformiad a gwybodaeth arall

| 359 | 113 | 172 | 592 |
|---|---|---|---|
| o ffobiau cyfrifiadur | o ffonau symudol | o liniaduron | o gyfrifiaduron desg |

**Buddsoddiad o £1.7m - cynnydd o ran sicrhau gwasanaethau TGCh yn y dyfodol 2011-16**




## Dangosyddion Perfformiad Allweddol





## Gwerth am arian

- Cydweithredu â Microsoft
- Gostyngiad o 60% yng nghost ffonau symudol
- Darparwyr contract newydd
- Gostyngiad o 44% yng nghostau sefydlog TGCh
- 20% o arbedion effeithlonrwydd o ran costau gweithredu
- Cydweithredu ar waith cwmpasu Medialon

## 05. Ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru

Er mwyn i ddemocratiaeth weithio, mae angen cael etholwyr sy'n ymgysylltu o holl wahanol sectorau ein cymunedau.  Mae sicrhau bod plant a phobl ifanc yn deall gwaith y Cynulliad ac yn chwarae rhan weithredol ynddo yn allweddol os yw'r Comisiwn am lwyddo i gyflawni ei nod o ymgysylltu â phobl Cymru. Mae ein gwasanaeth addysg, sy'n ymgysylltu â 30,000 o bobl ifanc y flwyddyn, yn newid ei bwyslais.

**Costau ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru 2014-15**




Mae'r tîm eisoes yn darparu cyfleoedd i bobl ifanc gyfrannu at y materion a ddaw gerbron y Cynulliad drwy ymchwiliadau pwyllgor, a'r gwaith allgymorth gydag ysgolion ac athrawon. Er mwyn datblygu'r gwaith hwn a chryfhau'r ystod o gyfleoedd i bobl ifanc ymgysylltu â'r Cynulliad, mae'r Comisiwn wedi :

– newid pwyslais gwaith y gwasanaeth addysg fel ei fod yn newid o ganolbwyntio'n bennaf ar godi ymwybyddiaeth o'r Cynulliad a chyfrannu'n uniongyrchol at y cwricwlwm cenedlaethol, i gynyddu'r cyfleoedd i bobl ifanc lywio busnes y Cynulliad a chymryd rhan ynddo;

– parhau i wneud cyfraniad sylweddol at ddarparu'r cwricwlwm drwy sicrhau bod yr ystod o ddeunyddiau addysgol helaeth ar gael yn rhwydd i athrawon, ysgolion ac eraill sy'n siarad yn rheolaidd â phobl ifanc am y Cynulliad, gan gynnwys yr Aelodau a'u staff;

– sefydlu grŵp llywio i ddatblygu syniadau am ffyrdd newydd o ymgysylltu â phobl ifanc, er enghraifft drwy gymryd rhan o bell drwy ddefnyddio technoleg neu Senedd Ieuenctid. Bydd y gwaith hwn yn cael ei ysgogi gan bobl ifanc. Byddant yn llywio'r gwaith ac yn nodi'r ffyrdd gorau o sicrhau bod ystod amrywiol o unigolion, ym myd addysg neu y tu allan iddo, yn gallu cymryd rhan.

Rydym hefyd yn annog y cyhoedd i gymryd rhan ac yn ehangu'r drafodaeth am drafodion y Cynulliad a'r diddordeb ynddynt drwy gysylltu ein gwaith â dadleuon yr Aelodau ar faterion sydd o ddiddordeb penodol i'r cyhoedd yng Nghymru.

– Mae enghraifft ddiweddar yn ymwneud â Dadl Aelod Unigol ar 15 Mai 2013 pan alwodd Jenny Rathbone AC, yr Aelod dros Ganol Caerdydd, ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau i godi ymwybyddiaeth ynghylch y pryderon iechyd ynghylch diodydd egni sy'n llawn caffein. Pasiwyd y cynnig yn y Cynulliad gyda 72% yn pleidleisio o blaid cymryd camau. Cynhaliodd y gwasanaeth addysg ddadleuon gydag ysgolion ar y pwnc hwn drwy gydol tymor yr haf. Cymerodd tua 700 o fyfyrwyr ran yn y dadleuon hyn gyda mwyafrif o 60% o blaid codi ymwybyddiaeth o'r mater.


## Ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru

| Wedi'i wneud (ers 2011-12) | Yn cael ei wneud (2013-14) | Cynlluniau ar y gweill (2014-15) | Ar y gorwel (2015-16) |
|---|---|---|---|
| **Gweithrediadau** | | | |
| Bws y Cynulliad | Grŵp Llywio - ffyrdd newydd o ymgysylltu â phobl ifanc | Cynyddu'r cyfleoedd i lywio busnes y Cynulliad a chymryd rhan ynddo | Darpariaeth yn lle bws y Cynulliad |
| Darparu gwasanaethau dwyieithog - Ymgynghoriad | | Darparu gwasanaethau dwyieithog - ateb arloesol wedi'i deilwra | |
| **Buddsoddiadau** | | | |
| Lansio'r Cynllun Prentisiaeth | Cynllun wedi'i ehangu i 6 prentis | Targedu pobl ifanc rhwng 16 ac 18 oed | Cynllun Graddedigion |
| Ailwampio'r Wefan | Diogelwch yr ystâd a'r defnydd o leoedd gwag | Cyfieithu peirianyddol - gweithredu | |
| Cynnydd yng % gwerthiant caffi a siop y Senedd | Cyfieithu peirianyddol - dichonoldeb | | |


## Dangosyddion perfformiad a gwybodaeth arall

| 2,180+ | 699 | 3,353,500 | 3,870,009 |
|---|---|---|---|
| o oriau o gyfieithu ar y pryd yn 2012-13 | o oriau o drafodion y Cyfarfod Llawn a'r pwyllgorau wedi'u cofnodi | o eiriau a gyfieithwyd mewn 4,036 o ddogfennau. | o eiriau yn nhrawsgrifiadau'r pwyllgorau |

**Buddsoddiad o £1.1m - cynnydd o ran ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru 2011-16**




## Dangosyddion Perfformiad Allweddol




## Gwerth am arian

– Cyfieithu Cofnod y Trafodion

– Adolygu cyfraddau a dulliau cyfieithu

– Adolygu'r defnydd o le


– Gwella siop a chaffi'r Cynulliad

– Cynnal digwyddiadau ar y cyd â Chanolfan Llywodraethiant Cymru

# 06. Defnyddio Adnoddau'n Ddoeth

Ar ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad, gwnaethom ymrwymo drwy ein cynlluniau cyllidebol tair blynedd i gyflawni ein hamcanion a'n blaenoriaethau gan sicrhau bod pob punt yn cael ei gwario'n ddoeth.  Mae angen inni barhau i fuddsoddi i sicrhau bod gan y Cynulliad yr adnoddau angenrheidiol i weithredu'n effeithiol fel senedd ac, ar yr un pryd, rhaid inni gynnal hyder Aelodau'r Cynulliad a phobl Cymru yn y modd yr ydym yn rheoli costau darparu'r gwasanaethau hyn.

**Costau defnyddio Adnoddau'n Ddoeth yn 2014-15**




## Stiwardiaeth yr ystâd

Mae'r Comisiwn yn rheoli adeiladau pwysig ar ran Cymru.  Mae ein gwaith o reoli'r ystâd a'n hadnoddau yn cynnwys rheoli'r Senedd sy'n adeilad eiconig ac arloesol, y Pierhead, sy'n adeilad rhestredig Gradd 1, a Thŷ Hywel.  I ddarparu lleoliad priodol i Gymru, mae gennym raglenni cynnal a chadw, adnewyddu ac ailwampio ac ethos o sicrhau mynediad i bawb, a rhaglenni i leihau effaith carbon ac i fesur rhagoriaeth yn erbyn y gofynion rheoleiddio. Bydd gwaith yn 2013 yn gwella mynediad i bobl sydd ag anableddau, yn gwella'r drefn ddiogelwch ac yn ein helpu i gyrraedd ein targedau i leihau carbon drwy addasu mynedfa Tŷ Hywel.

Rydym wedi sicrhau cyflawniadau sylweddol, fel defnydd gwell o'r lleoedd gwag yn y swyddfa i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'r lle sydd ar gael. Mae hyn wedi ein galluogi i ymdrin â newidiadau o ran staff, fel y rheini a wnaed o ganlyniad i wneud gwasanaethau TGCh yn rhai mewnol ac i gyd-leoli timau sy'n cefnogi ei gilydd yn agos. O ganlyniad i'n gwelliannau, rydym wedi llwyddo i gynyddu'r man gweithio sydd ar gael 15%.

Rydym wedi gwneud cynnydd da o ran lleihau ein defnydd o ynni (22%) ac o ran cyfanswm yr allyriadau o wastraff (60%) ers 2010.  Bydd angen buddsoddi i wneud cynnydd sylweddol pellach. Rydym wrthi'n ystyried y goleuadau yn y Senedd, sydd i gyfrif am 17% o ofyniad ynni'r adeilad.

Rydym hefyd yn wynebu her gynyddol yn y blynyddoedd i ddod oherwydd bydd angen ailwampio nifer o systemau yn yr adeiladau neu gael rhai newydd. Bydd angen inni ariannu

hyn o'n hadnoddau a bydd angen ei gyflawni gan sicrhau bod cyn lleied â phosibl o effaith ar fusnes y Cynulliad.

## Llwyddiant drwy ein pobl

Mae cyflawni nodau strategol y Comisiwn yn gwbl ddibynnol ar gyfraniad pobl dalentog ac ymrwymedig.

Rydym yn hynod falch ein bod wedi cael y safon aur Buddsoddwyr Mewn Pobl am yr ail waith ym mis Mehefin 2013. Mae'r meincnod allanol hwn yn cydnabod y pwysigrwydd a roddwn i ymgysylltiad, cyfraniad a datblygiad staff.

Mae'r cyflawniadau sylweddol a wnaed hyd yn hyn yn cynnwys:

- Cyflwyno Cynllun Prentisiaeth llwyddiannus, gyda'n pedwar prentis cyntaf yn cwblhau eu rhaglen o astudiaethau a phrofiad gwaith yn yr hydref;
- Pennu'r Cyflog Byw cenedlaethol fel yr isafswm cyflog yn ein contractau glanhau ac arlwyo;
- Llofnodi cytundeb gweithio mewn partneriaeth newydd gydag Undebau Llafur y Cynulliad - mae gennym berthynas gref gyda'n hundebau sy'n helpu i wella ein dulliau o weithio;
- Sicrhau bod yr hyfforddiant 'Gweithle Cynhwysol' ar gael i bob aelod o staff - cam allweddol o dan ein Cynllun Cydraddoldeb;
- Cynyddu ein sgôr ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall flwyddyn ar ôl blwyddyn - rydym ar hyn o bryd yn rhif 26 yn y mynegai 100 uchaf.
- Cyflwyno 'cyfeillion dysgu' a strategaeth secondiadau i sicrhau bod staff yn gallu gwella a datblygu eu sgiliau a'u profiad;
- Rhagori ar gyfraddau absenoldeb salwch yn y sectorau preifat a chyhoeddus.

Gan edrych ymlaen, byddwn yn parhau i ganolbwyntio'n fawr ar sicrhau bod gennym y sgiliau cywir yn y mannau cywir, fel y nodir yn ein Strategaeth Pobl. Rydym yn bwriadu denu rhagor o bobl o grwpiau heb gynrycholiaeth ddigonol i weithio i'r Comisiwn a byddwn yn recriwtio ail grŵp o brentisiaid. Mae taliadau yn parhau i fod yn rhan bwysig o'n cynnig recriwtio a chadw, a byddwn yn defnyddio Pwyllgor Taliadau'r Comisiwn i gynnal arolwg strategol o hyn.

## Gwerth am Arian

Ers cyflwyno'r targed gwerth am arian, rydym wedi ei gyrraedd ym mhob blwyddyn ariannol. Gwnaed arbedion o £0.53 miliwn yn 2011-12, sy'n fwy na tharged y Comisiwn o £0.35 miliwn, a gwnaethom gyrraedd ein targed o £0.47 miliwn yn 2012-13. Gwnaed yr arbedion hyn gan fwyaf drwy reoli swyddi gwag a'r ddau gynllun ymddiswyddo'n wirfoddol. Targed gwerth am arian y Comisiwn ar gyfer 2013-14 yw £0.5 miliwn a chynigir targed o £0.5 miliwn ar gyfer 2014-15.

I sicrhau ein bod yn datblygu diwylliant gwerth am arian cryfach ymysg aelodau o staff, rydym wedi cynyddu proffil y targed gwerth am arian drwy'r sefydliad dros y 18 mis

diwethaf ac mae gennym gynlluniau gweithredu ar gyfer y prif feysydd gweithgareddau. Mae'r cynlluniau hyn wedi'u halinio â nodau strategol a blaenoriaethau corfforaethol y Comisiwn ac maent yn cynnwys dulliau o sicrhau atebolrwydd ac amserlenni i sicrhau bod ein dyheadau ar gyfer ein rhaglen gwerth am arian yn cael eu bodloni. Mae Atodiad 3 yn cynnwys rhagor o wybodaeth.

Ar ôl secondiad llwyddiannus, rydym wedi penodi Pennaeth Caffael parhaol i ddarparu arbenigedd masnachol er mwyn sicrhau arbedion ariannol ac arbedion effeithlonrwydd ochr yn ochr â sicrhau bod ein cyfleoedd cytundebol yn atyniadol i fusnesau bach a chanolig, gan gynnig buddion cymdeithasol ac economaidd eraill. Rydym wedi cydlynu'r cymorth caffael ar gyfer ein prif gontractau ac rydym yn meithrin sgiliau mewn rheoli cytundebau drwy hyfforddiant a mentora. Rydym wedi cyflwyno log arbedion caffael i ddangos buddiannau a chanlyniadau'r buddsoddiad hwn. Mae hyn yn cyfrannu at ein targed gwerth am arian.

Rydym yn parhau i gryfhau ein harferion rheoli ariannol i sicrhau bod yr arian sydd ar gael yn cael yr effaith fwyaf. Gwnaed nifer o welliannau dros y flwyddyn ddiwethaf sydd wedi caniatáu i ni osod targed mwy uchelgeisiol ar gyfer yr alldro ariannol, sef 1% o'r gyllideb. Er y byddai gorwariant yn arwain at gyfrifon amodol, mae tanwariant sylweddol yr un mor anamddiffynadwy ar adeg pan fo disgwyliadau uchel yn golygu bod cystadleuaeth am bob punt sydd ar gael. Mae proses fisol gadarn ar waith, sy'n asesu'r gofynion posibl ar gyfer gwariant gweithredol a phrosiectau buddsoddi, yn dadansoddi'r amrywiadau, yn adolygu'r tybiaethau o ran risg ac yn addasu'r rhagolygon ar gyfer rhagamcanion. Rhoddir y cyfrifoldeb dros ddyrannu cyllidebau i Benaethiaid y Gwasanaethau ac Uwch-berchnogion sy'n gyfrifol am brosiectau, ac mae atebolrwydd clir o ran rheoli a gwneud penderfyniadau yn cysylltu pob lefel â'i gilydd. Mae'n hanfodol bod y Comisiwn yn gallu dangos ei fod yn defnyddio ei adnoddau'n ddoeth. Mae'r gwaith craffu ariannol a wneir gan ein cyflogeion cyllid proffesiynol, y Bwrdd Buddsoddi, y Bwrdd Rheoli a Chomisiwn y Cynulliad, yn ogystal â Phwyllgor Cyllid y Cynulliad, yn ein helpu i wneud hynny.

## Defnyddio adnoddau'n ddoeth

| Wedi'i wneud (ers 2011-12) | Yn cael ei wneud (2013-14) | Cynlluniau ar y gweill (2014-15) | Ar y gorwel (2015-16) |
|---|---|---|---|
| **Gweithrediadau** | | | |
| Llogi car ecogyfeillgar | Cytundeb hyfforddiant i reolwyr | Hyfforddiant ariannol i staff a rheolwyr cyllidebau | |
| Arbed ynni a gwastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi | | Mentrau cynaliadwyedd | |
| **Buddsoddiadau** | | | |
| Meddalwedd e-dendro ar gyfer gwaith caffael | System Adnoddau Dynol a Chyflogres gyfunol | Adnewyddu'r system gyllid | |

## Dangosyddion perfformiad a gwybodaeth arall


**5**
Safon amgylcheddol y Ddraig Werdd

**Aur**
Buddsoddwyr mewn Pobl


**£1.2m**
Sicrhau gwerth am arian

**>10 diwrnod**
Talu ein cyflenwyr

**Buddsoddiad o £1.4m – cynnydd o ran defnyddio adnoddau'n ddoeth 2011-16**




## Y Prif ddangosyddion perfformiad




## Gwerth am arian

– Cytundebau fframwaith gwasanaeth

– Cynllunio'n well

– Newid cytundebau cyflogaeth

– Symdleiddio ffrydiau a phrosesau gwaith

– Buddion y prosiect Adnoddau Dynol a Chyflogres

– Arbedion ym maes caffael

– Lansio tudalennau Gwerth am Arian ar y we


– Arbedion yn sgil swyddi gwag

## 07. Cyllideb i ariannu Penderfyniad annibynnol y Bwrdd Taliadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad

Mae gan y Comisiwn gyfrifoldeb statudol i sicrhau arian yn sgil penderfyniadau Bwrdd Taliadau annibynnol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ynglŷn â chyflog a chostau eraill Aelodau'r Cynulliad. Mae penderfyniadau'r Bwrdd yn cael eu cyhoeddi yn y Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau.

£50.6 miliwn yw cyllideb ddrafft y Comisiwn ar gyfer 2014-13 a bydd £14.1 miliwn ohono'n cael ei wario ar gyflogau Aelodau'r Cynulliad, eu staff cymorth a'r gost o redeg eu swyddfeydd etholaethol ar hyd a lled Cymru. Mae'r siart isod yn dangos sut y caiff yr arian ei ddefnyddio.

**Cyllideb i ariannu penderfyniad y Bwrdd Taliadau**




Cyhoeddwyd Penderfyniad diweddaraf y Bwrdd Taliadau fis Rhagfyr 2012. Mae'r Penderfyniad yn sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad yn cael costau swyddfa a chostau eraill i dalu am:

– redeg swyddfa ac ymgysylltu ag etholwyr;

– cyflog a threuliau teithio eu staff cymorth;

– llety preswyl yng Nghaerdydd pan fo'i angen i'r rheini sy'n gymwys;

– treuliau teithio y mae'n angenrheidiol eu talu wrth iddynt ymgymryd â'u dyletswyddau;

– cymorth i grwpiau'r pleidiau.

Yn ogystal â hyn, mae'r Penderfyniad yn gosod cyflog sylfaenol Aelodau'r Cynulliad (sydd wedi'i rewi ers 2011), ynghyd â lwfansau deiliaid swyddi.


Mae'r cynnydd o £0.4miliwn yn y cyllid sydd ei angen ar gyfer cynnydd a newidiadau yng nghyflogau staff yr Aelodau. Mae'r rhain yn cynnwys creu Cronfa Polisi ac Ymchwil newydd gyda chyllideb gychwynnol o £0.12 miliwn, £0.14 miliwn ar gyfer newidiadau yng nghostau staff yr Aelodau a'r grwpiau gwleidyddol a £0.14 miliwn ar gyfer cynnydd cytundebol mewn cyflogau.

## 08. Crynodeb

Caiff cyfanswm cyllideb y Comisiwn, sef £50.6 miliwn, ei ddefnyddio at ddibenion penodol fel yr amlinellir yn y cyflwyniad hwn. Defnyddir yr arian cyhoeddus sydd ar gael i'r Comisiwn i sicrhau bod yr Aelodau yn gallu ymgymryd yn effeithiol â'u dyletswyddau wrth wasanaethu eu hetholwyr a phobl Cymru yn gyffredinol.

Mae'r Comisiwn yn gweithredu'n agored ac yn dryloyw. Caiff cynigion cyllidebol 2014-15 eu pennu i ddarparu digon o adnoddau i sicrhau bod dyletswyddau statudol y Comisiwn yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus.

**Cost Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2014-15 £50.6 miliwn**



# 09. Cwmpas y gyllideb

**01.** Gosodir y cyflwyniad cyllidebol hwn yn unol â Rheol Sefydlog 20 y Cynulliad i helpu i lunio Cynnig y Gyllideb Flynyddol sy'n ofynnol yn ôl Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r cyflwyniad yn cynnwys gofynion Comisiwn y Cynulliad o ran adnoddau ac arian ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2015.

**02.** Pennodd Comisiwn y Cynulliad ei ofynion gwario yn ei gyllideb ar gyfer 2012-13, sy'n cynnwys y cyfnod hyd at 2015. Mae cyllideb eleni (£50.6 miliwn) yn adlewyrchu'r lefelau cyllido blaenorol y craffwyd ac y cytunwyd arnynt.

**03.** Bydd Cynnig y Gyllideb yn awdurdodi'r adnoddau net i'w defnyddio ar gyfer gwasanaethau a dibenion Gwasanaethau'r Aelodau a'r Cynulliad. Mae'r cynnig yn cynnwys uchafswm yr incwm (neu'r adnoddau cronnus) y gellir ei gadw i'w ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau hynny ac at y dibenion hynny yn hytrach na'i fod yn cael ei dalu i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru, a'r arian parod y bydd angen ei gael o'r gronfa i dalu am y cyfansymiau net a ragwelir y bydd y Comisiwn yn gorfod talu amdanynt.

**04.** Nodir y gyllideb ar gyfer Comisiwn y Cynulliad yn 2014-15, sy'n mynd i'r afael â'r gofynion hyn, isod yn Nhabl 1.

| Tabl 1 | £000 |
|---|---|
| Arian ar wahân i arian cronnus i'w ddefnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gostau refeniw a chyfalaf sy'n gysylltiedig â gweinyddu a gweithredu Gwasanaethau'r Cynulliad i gefnogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad"); hyrwyddo'r Cynulliad gan gynnwys taliadau i'r Comisiwn Etholiadol ac eraill; taliadau mewn perthynas â'r Comisiynydd Safonau a'r Bwrdd Taliadau; unrhyw daliadau eraill sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Cynulliad neu Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. | 36,500 |
| Arian ar wahân i arian cronnus i'w ddefnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau. | 14,100 |
| *Cyfanswm yr arian, ar wahân i arian cronnus* | *50,600* |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol i'w ddefnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â darparu Pensiwn Aelodau'r Cynulliad. | 750 |

| | |
|---|---|
| Arian cronnus i'w gadw yn unol ag Adran 120(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac i'w ddefnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.<br><br>o'r broses o gael gwared ar asedau sefydlog ac incwm cyfalaf arall i'w ddefnyddio i brynu neu gaffael asedau sefydlog; neu<br><br>incwm o rent; anrhegion; cymorth grant; ad-daliadau ac incwm o werthiant masnachol a gwasanaethau eraill a ddarperir i'r cyhoedd ac eraill i'w defnyddio ar gyfer costau gweinyddu'r Cynulliad. | 250 |
| Y swm a ddaw o Gronfa Gyfalaf Cymru i dalu am y symiau y rhagwelir y bydd angen eu talu o fewn y flwyddyn mewn perthynas â'r gwasanaethau uchod ac at ddibenion ar wahân i dderbynebau y gellir eu cadw a TAW y gellir ei adfer. | |

**05.** Mae tabl 2 isod yn cysoni'r gofyniad adnodd net â'r gofyniad i dynnu arian o Gronfa Gyfunol Cymru.

| **Tabl 2** **GOFYNIAD ARIANNOL** | | **£000au** |
|---|---|---|
| | **2014-15** | **2015-16** |
| Gofyniad Refeniw Net yr Aelodau | 14,100 | 14,500 |
| Gofyniad Refeniw Net y Comisiwn[1] | 34,757 | 35,246 |
| Gofyniad cyfalaf net | 1,741 | 1,159 |
| Darpariaeth Pensiwn Aelodau’r Cynulliad | 750 | 750 |
| *Addasiadau:* | | |
| Dibrisiant | (4,400) | (4,900) |
| Newidiadau yn y ddarpariaeth | (500) | (500) |
| Newidiadau o ran y dyledwyr a'r credydwyr | | |
| Defnydd o ddarpariaethau | | |
| **Gofyniad ariannol net i'w gymryd o Gronfa Gyfunol Cymru** | **46,448** | **46,255** |

[1] Incwm Cronnus Tybiedig o £0.250 miliwn o flwyddyn i flwyddyn.

# Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

| Cost y Cynulliad Cendleaethol | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £m | £m | £m | £m | £m |
| Staff y Comisiwn | 15.1 | 15.5 | 16.3 | 17.4 | 17.8 |
| Penderfyniad y Bwrdd Taliadau | 13.0 | 13.5 | 13.7 | 14.1 | 14.5 |
| Costau sefydlog | 11.1 | 12.4 | 12.6 | 12.2 | 12.3 |
| Costau amrywiol | 4.4 | 4.4 | 4.6 | 5.2 | 5.2 |
| Rhaglen Fuddsoddi | 1.1 | 1.1 | 2.3 | 1.7 | 1.1 |
| | 44.7 | 46.9 | 49.5 | 50.6 | 50.9 |

## Meysydd gwariant yn ystod y Pedwerydd Cynulliad

| | 2011-12 Gwirioneddol £'000 | 2012-13 Gwirioneddol £'000 | 2013-14 Cyllideb £'000 | 2014-15 Cyllideb £'000 | 2015-16 Cyllideb £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| ***Costau llety a chyfleusterau*** | | | | | |
| Prydlesi – adeiladau | 2,204 | 2,812 | 2,835 | 2,835 | 2,835 |
| Cynnal a chadw | 1,716 | 1,971 | 1,643 | 1,655 | 1,666 |
| Cyfraddau | 1,285 | 1,356 | 1,299 | 1,356 | 1,383 |
| Diogelwch | 581 | 603 | 600 | 600 | 600 |
| Cyfleustodau | 506 | 518 | 557 | 557 | 568 |
| Arlwyo | 323 | 305 | 312 | 320 | 320 |
| Prydlesi – ffotocopïwyr | 127 | 161 | 150 | 150 | 150 |
| Parcio | 99 | 115 | 120 | 120 | 120 |
| Dodrefn a ffitiadau | 68 | 79 | 50 | 50 | 50 |
| ***Costau TGCh*** | | | | | |
| Gwasanaethau TGCh o dan gontract allanol, gan gynnwys ffonau | 2,856 | 2,579 | 2,561 | 1,861 | 1,376 |
| Darlledu | 433 | 475 | 460 | 460 | 469 |
| Costau trwyddedu a chynnal a chadw | 289 | 385 | 260 | 640 | 652 |
| Prosiectau TGCh | 147 | 215 | - | - | - |
| Gwefan | 176 | 121 | 130 | 130 | 130 |
| Cyllid TGCh a chynnyrch treuliadwy | 63 | 90 | 130 | 130 | 130 |
| ***Costau eraill*** | | | | | |
| Treuliau gweinyddol eraill | 61 | 343 | 191 | 240 | 190 |
| Gwasanaethau iaith o dan gontract allanol | 116 | 204 | 280 | 273 | 273 |
| Argraffu, Offer Papur Swyddfa a Phostio | 181 | 203 | 189 | 259 | 259 |
| Yswiriant a Chyngor Arbenigol | 109 | 195 | 136 | 130 | 131 |
| Cyhoeddiadau | 174 | 110 | 149 | 129 | 129 |
| Gwasanaeth Cyfrifo ac Ariannol | 126 | 92 | 78 | 25 | 25 |
| Archwilio | 82 | 87 | 95 | 84 | 85 |
| Cynghorwyr y Pwyllgorau | 71 | 57 | 45 | 50 | 50 |
| Lletygarwch | 31 | 37 | 45 | 45 | 45 |
| ***Costau hyfforddiant a datblygu*** | 194 | 250 | 390 | 390 | 390 |
| ***Hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth*** | 170 | 178 | 432 | 452 | 452 |
| ***Costau teithio a chynhaliaeth staff*** | 92 | 136 | 139 | 138 | 138 |
| ***Costau AD eraill*** | 1,035 | 210 | 103 | 103 | 104 |
| ***Costau Etholiad*** | 426 | - | - | - | - |
| ***Taliadau dibrisiant ac amorteiddiad*** | 3,781 | 3,937 | 4,000 | 4,400 | 4,900 |
| | 17,522 | 17,824 | 17,378 | 17,580 | 17,620 |
| Incwm | 190 | 165 | 220 | 205 | 205 |

# Atodiad 2: Mesur Perfformiad Corfforaethol 2013-14

| | Darparu Cymorth Seneddol o'r Radd Flaenaf | Ebrill - Mehefin 2013 | |
|---|---|---|---|
| 1 | Boddhad Aelodau | oren | Sgôr Cyfartalog o 7.0, gostyngiad bach o'i gymharu â sgôr 2012 o 7.3 |
| 2 | Amseroldeb | gwyrdd | Yn ymwneud â Phapurau Pwyllgor a chyhoeddi Cofnod y Trafodion |
| 3 | Cyflenwi Gwasanaethau | gwyrdd | Cynnydd yn nifer y dysgwyr Cymraeg ynghyd a nifer yr Aelodau Cynulliad a staff cymorth Aelodau'r Cynulliad sy'n ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus |
| 4 | Cynnydd ar Waith o Flaenoriaeth | gwyrdd | Integreiddio gwasanaethau, gwasanaethau dwyieithog, defnydd o'r ystâd - gwnaed cynnydd ac mae pob un ar y trywydd iawn |

| | Ymgysylltu â Phobl Cymru a Hyrwyddo Cymru | Ebrill - Mehefin 2013 | |
|---|---|---|---|
| 5 | Boddhad Aelodau | oren | Sgôr gwell o 7.13 o'i gymharu â 6.35 yn 2012. Y targed yw 8 |
| 6 | Arolwg Blynyddol o Ganfyddiad y Cyhoedd | oren | Cynhaliwyd yr arolwg diwethaf yn 2010, mae gwaith ar y gweill i ddatblygu dull o gasglu'r data hwn |
| 7 | Ymwelwyr | gwyrdd | Nifer yr ymwelwyr ar gyfer Ebrill - Mehefin yn uwch na'r cyfartaledd misol ar gyfer 2012 |
| 8 | Proffil Allanol | gwyrdd | Cynydd mewn rhyngweithio ar gyfryngau cymdeithasol ac wrth ymgysylltu ag ysgolion |
| 9 | Ymgysylltu â phobl Cymru, gan gynnwys pobl ifanc | gwyrdd | Datblygu newidiadau i'r rhaglen waith addysg/ymgysylltu â phobl ifanc |

| | Defnyddio Adnoddau'n Ddoeth | Ebrill - Mehefin 2013 | |
|---|---|---|---|
| 10 | Boddhad Aelodau | gwyrdd | Sgôr gwell o 8.22 o'i gymharu â 8.16 yn 2012. Y targed yw 8. |
| 11 | Perfformiad Cyllidebau | gwyrdd | O fewn cyrraedd i gyflawni arbedion o £500,000 a thanwariant o lai na 1% |
| 12 | Staff | oren | 7.4 diwrnod cyfartaledd salwch (3.35%) o'i gymharu â'r targed o 7 diwrnod (3%) |
| 13 | Gwasanaeth Cwsmeriaid TGCh | oren | Yn seiliedig ar foddhad uwch yn arolwg yr Aelodau ond gyda lle clir i wella ymhellach. |
| 14 | Llywodraethu | gwyrdd | Cyflawnwyd targedau o ran talu cyflenwyr a cheisiadau rhyddid gwybodaeth |
| 15 | Cynaliadwyedd | oren | Rheoli gwastraff yn cyrraedd y nod ond y targed ynni heb ei gyflawni eto oherwydd cyfnod oer y gwanwyn |
| 16 | Prosiect Gwasanaethau TGCh yn y dyfodol | gwyrdd | Ar y trywydd iawn ar gyfer pontio gwasanaethau, ar neu cyn 31 Gorffennaf 2014 |

**Allwedd**

| | |
|---|---|
| (coch) | COCH: Mae materion allweddol yn effeithio ar gyflawni amcanion busnes. I sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni, mae angen newidiadau i amseru, costau a/neu gwmpas |
| (oren) | OREN: Mae materion neu risgiau sydd angen mynd i'r afael â hwy. Serch hynny, mae cyflawni'n llwyddiannus yn bosibl heb effaith fawr ar y gyllideb, safon gwasanaethau neu ddyddiadau targed |
| (gwyrdd) | GWYRDD: Mae'r gwaith yn cwrdd â safonau y cytunwyd arnynt neu'n datblygu yn ôl y disgwyl. Ar hyn o bryd nid oes risigau, neu ychydig ohonynt sy'n wybyddus i'r Comisiwn |

## Atodiad 3: Y Rhaglen Gwerth am Arian

Rydym wedi gwneud cynnydd cadarnhaol o ran ein rhaglen Gwerth am Arian. Tair thema'r rhaglen yw:

***Gwella gwybodaeth rheoli*** i gael gwell dealltwriaeth o weithgarwch gwasanaethau'r Cynulliad, y costau a'r hyn sy'n sbarduno'r costau hynny

***Symleiddio prosesau*** and a sut y gweithiwn er mwyn ***gwneud gwasanaethau'r Cynulliad mor effeithiol â phosibl*** ac i wneud defnydd gwell hyd yn oed o adnoddau

Sicrhau'r buddiannau a'r arbedion cost mwyaf o'r ***broses gaffael a phroses gadarn o reoli cytundebau***.

Yn ogystal â'r arbedion a nodir uchod, mae nifer o gyflawniadau a mentrau gwerth am arian eraill drwy'r sefydliad ac rydym yn olrhain yr arbedion a ddaw yn sgîl gweithgaredd caffael.

Dyma rai enghreifftiau:

| Thema | Cyflawniad/Menter | Y flwyddyn ariannol berthnasol |
|---|---|---|
| Gwella gwybodaeth rheoli/caffael a chael proses gadarn o reoli contractau. | Wrth adolygu cynnwys ac ansawdd offer swyddfa Aelodau'r Cynulliad, casglwyd a chyflwynwyd costau'r opsiynau gwahanol i randdeiliaid. Roedd y cynnyrch a ddewiswyd o safon dda, ond roedd yn costio dros 20% yn llai na'r opsiwn drytaf. Arweiniodd yr opsiwn a ddewiswyd at amseroedd cyflawni gwell. | 2013-14 ymlaen (cyflwynwyd Ionawr 2013) |
| Symleiddio prosesau | Roedd cynllunio ar gyfer dogfen Cyllideb 2013-14 yn cynnwys trefnu o flaen llaw i'r Gwasanaethau Brandio a Chyfieithu gyflawni o fewn amserlenni tyn. O ganlyniad i'r cynllunio ar draws y gwasanaethau hyn, roedd staff mewnol ar gael, a arweiniodd at ostyngiad o 40% yn y costau.<br><br>Mae gwasanaethau eraill bellach yn edrych ar weithredu hyn yn eu meysydd hwy. | 2012-13<br><br>O 2013-14 ymlaen |
| | Pan ailgyflwynwyd y broses o gyfieithu Cofnod y Trafodion, cytunwyd y byddai'n cael ei gyhoeddi o fewn 5 diwrnod gwaith, yn hytrach na dros nos. Arweiniodd y ffaith bod mwy o amser i'w gyfieithu a bod dull newydd o'i gyfieithu (cyfuniad o gyfieithu peirianyddol a phrawfddarllen) at arbediad o tua 60%. | 2013-14 ymlaen (ailgyflwynwyd Ionawr 2012) |

| | | |
|---|---|---|
| Caffael a phroses gadarn o reoli contractau | Mae prosiect i edrych ar opsiynau ar gyfer cael cyflenwr newydd yn lle Medialon ar y gweill ar hyn o bryd. Cynhaliwyd nifer o weithdai i drafod a chytuno ar y cylch gorchwyl ar gyfer yr astudiaeth cwmpasu/prototeipio a chytunodd y cyflenwr i ariannu 12.5 diwrnod (oddeutu 50%) o'r astudiaeth. | 2013-14 |
| | Ym mis Mai 2013, newidwyd y darparwr contract ar gyfer dyfeisiadau symudol. Amcangyfrifir y gwnaed arbedion o dros 60%, ar sail 113 o ddyfeisiadau symudol. Bydd ymarferoldeb y dyfeisiadau yn well hefyd, a bydd gan Aelodau ddewis o ffonau clyfar. | 2013-14 a 2014-15 |

## Atodiad 4: Geirfa

**Gwariant a Reolir yn Flynyddol**
Dull o gategoreiddio gwariant a gedwir ar gyfer eitemau llai disgwyliadwy ac sy'n anos eu rheoli. Dim ond at y diben y cafodd ei neilltuo y gellir ei ddyrannu.

**Fformiwla Barnett**
Fformiwla a ddefnyddir i ddyrannu cyfran yn seiliedig ar y boblogaeth o'r newid mewn gwariant wedi'i gynllunio ar wasanaethau tebyg gan adrannau Llywodraeth y DU i'r deddfwrfeydd datganoledig yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

**Gwariant Cyfalaf**
Gwariant sydd fel arfer yn arwain at asedau sefydlog (ee adeilad, cyfarpar neu dir) y bwriedir iddynt fod o fudd i gyfnodau cyfrifo yn y dyfodol, neu wariant sy'n cynyddu capasiti, economi, effeithlonrwydd neu oes ased sefydlog sy'n bodoli eisoes.

**Credydwr**
Sefydliad neu unigolyn yr ydych wedi ymrwymo i'w dalu am gynnyrch neu wasanaethau a gafwyd.

**Dyledwr**
Sefydliad neu unigolyn sydd wedi'i ymrwymo i'ch talu am gynnyrch neu wasanaethau yr ydych wedi eu darparu iddo.

**Dibrisiant**
Mesur o'r defnydd neu'r gorddefnydd o ased sefydlog, neu leihad yn ei oes ddefnyddiol.

**Cyllideb Ddraft**
Mae'n pennu'r adnoddau a'r arian parod y cynigir eu defnyddio yn y flwyddyn ariannol ddilynol a'r ffigurau mynegol ar gyfer y blynyddoedd ariannol wedi hynny.

**Asedau sefydlog**
Eitemau a brynir sydd ag oes ddisgwyliedig sy'n hwy na blwyddyn at fudd busnes, fel tir, adeiladau a chyfarpar.

**Deddf Llywodraeth Cymru 2006**
Deddf Senedd y DU sy'n diwygio Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac yn ei gwneud yn haws i bwerau pellach gael eu trosglwyddo iddo. Mae'r Ddeddf yn creu system lywodraethu sydd â gweithrediaeth ar wahân a ddaw o'r ddeddfwrfa ac sy'n atebol iddi.

**Darpariaethau**
Mae darpariaeth yn rhwymedigaeth nad oes amserlen na swm penodol iddi. Caiff cost ei chydnabod yng Nghyfrif Adnoddau'r Comisiwn pan fydd rhwymedigaeth bresennol (cyfreithiol neu ddeongliadol) o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol, pan fydd yn debygol y bydd angen trosglwyddo buddion economaidd i setlo'r rhwymedigaeth hon, a phan y gellir rhoi rhamcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth.

**Termau real**
Gwerth y gwariant sydd wedi'i addasu ar sail chwyddiant cyffredinol mewn prisiau. Mae'n

galluogi i gymhariaethau o'r gwariant ar draws blynyddoedd gael eu gwneud heb yr ystymiad sy'n cael ei beri gan newidiadau mewn prisiau.

**Costau Refeniw/Rhedeg**
Y gwariant presennol ar gostau rhedeg dyddiol, fel cyflogau staff a phrynu chynnyrch treuliadwy a gwasanaethau.

**Gwerth am Arian**
Y broses a ddefnyddir gan sefydliad ar gyfer gwerthuso ac asesu prosesau caffael, prosiectau a phrosesau mewn modd systematig i ennyn hyder ynghylch addasrwydd, effeithiolrwydd, gochelgarwch, safon a gwerth, ac os llwyddwyd i osgoi camgymeriadau a gwastraff arall, a fernir ar gyfer y sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd.

**Costau Amrywiol**
Treuliau sy'n newid ar sail gweithgareddau'r sefydliad.

**Bloc Cymru**
Arian bloc grant a gyfrifir gan ddefnyddio Fformiwla Barnett, y mae'r Senedd yn pleidleisio arno i'w roi i Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar gyfer yr arian a ddaw i Gymru.

**Cronfa Gyfunol Cymru**
Crëwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'n gyfrif banc niwtral a gedwir gan y Tâl-feistr Cyffredinol. Dyma'r cyfrif y mae'r arian y bydd Senedd y DU yn pleidleisio arno yn cael ei dalu i mewn iddo i'w ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, Comisiwn y Cynulliad, yr Archwilydd Cyffredinol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.